COFNODION PWYLLGOR GWAITH Y SIR A GYNHALIWYD AR NOS FERCHER 19eg O IONAWR 2022

CADEIRYDD: Bleddyn Davies

YMDDIHEURIADAU: Ifan Davies; Annette Jones; Ifan Davies a Glyn Davies

PRESENNOL: 33 yn ôl llyfr presenoldeb

Cyn dechrau'r cyfarfod gwnaeth y Cadeirydd gyhoeddi os oedd rhywun am ddatgan diddordeb ar un o'r pwyntiau i wneud cyn dod at y pwynt dan sylw. Aeth y Cadeirydd ymlaen i longyfarch y canlynol;

- Pawb a fu'n cystadlu yn Eisteddfod C.Ff.I. Cymru ac am sicrhau bod y Sir yn 3ydd ar ddiwedd y dydd. Llongyfarchiadau i Ianto Jones, Felinfach ar ennill cadair C.Ff.I. Cymru ac i'r Adran Waith Cartref ar ddod yn 3ydd.
- Pawb a fu'n cystadlu yn y Ffair Aeaf ac i'r Sir ar ddod yn fuddugol ar ddiwedd y ddau ddiwrnod o gystadlu.
- I'r Sir ar ennill Gwobr Ieuenctid dros Gymru
- Pawb a fu'n rhan o Pantomeim C.Ff.I. Cymru
- I'r Llywydd – Siôn Jenkins am drefnu taith tractorau llwyddiannus iawn ym mis Rhagfyr.
- I Gwenyth Richards ac Elfyn Tandy; Sioned Hatcher a Curtis ar eu dyweddiad..
- I Mererid ac Arwel Jones ar enedigaeth merch fach o'r enw Glain; Teleri a Carwyn ar enedigaeth mab o'r enw Efan Harri; Rhian ac Aled Whitfield ar enedigaeth mab o'r enw Elis Tomos.

Croesawodd y Cadeirydd Angharad Jones, Swyddog Gweinyddol a Marchnata y Sir i'w phwyllgor gwaith cyntaf.

40 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf
Cynigiwyd fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir gan Sioned Davies ac eiliwyd gan Elen Rebecca Jones.

41 Materion yn codi o'r cofnodion
Nid oedd yna faterion yn codi.

42 Gohebiaeth
- Noson Fforwm Ieuenctid – Nos Fawrth 25ain o Ionawr ar Zoom yn gwneud 'String Art'
- Noson Materion Gwledig – Nos Fercher 2il o Chwefror gyda Rhys Jones, Coleg Sir Gar
- Derbyniodd y Sir lythyron yn eu llongyfarch ar eu llwyddiant ar ôl ennill Tlws Rhagoriaeth Ieuenctid dros Gymru am gynorthwyo amser y Pandemig gan y canlynol Ben Lake A.S.; Elin Jones A.C.; Helen Jones (CWVYS) ac Elen James (Gwasanaeth Ieuenctid y Sir.

43 Adroddiad y Trysorydd

Cyfrif Cyfredol:	£ 2,524.48	Clwb 200:	£2,900.00
Cyfrif Cadw:	£100,980.95		

Her y Llywydd – Llwyddwyd i godi dros £5,500.

44 Adroddiad Fforwm Ieuenctid
Derbyniwyd adroddiad gan Beca Jenkins a braf gweld cynifer o aelodau wedi ymuno â'r Fforwm Ieuenctid.

44 Adroddiad Materion Gwledig C.Ff.I. Cymru
Derbyniwyd adroddiad gan Dewi Davies.

45 Adroddiad Gweithgareddau
Derbyniwyd adroddiad gan Sioned Davies.

46 Derbyn adroddiadau
Derbyniwyd adroddiad gan Einir Ryder o gyfarfod Is-bwyllgor Rheoli a Chyllid y Sir.
Derbyniwyd adroddiad gan Elliw Dafydd o Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata C.Ff.I. Cymru
Derbyniwyd adroddiad gan Anne Jones o gyfarfod Staff C.Ff.I. Cymru.
Nododd Anne byddai'r Lefi Cenedlaethol yn codi am y flwyddyn nesaf i £28 o £25.80. Ar ôl trafodaeth cynigiwyd eu godi yng nghyfarfod Cyngor C.Ff.I. Cymru gan i fod yn annheg godi'r pris

mor gloi. Hefyd roedd yr aelodau yn dymuno gweld tystiolaeth o faint oedd y lefi wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Codwyd y pwynt I roi trafodaeth ar agenda AGM y Sir ym mis Mehefin am NFYFC.

47 Diweddariad Covid

Ar ôl yr 28ain o Ionawr roedd cyfyngiadau Covid yn cael ei llacio ryw fymryn. Atgoffwyd yr aelodau i barhau i wneud tracio ac olrhain ac asesiad risg cyn nosweithiau Clwb.

48 Calendr y Sir

Hyfforddiant Iechyd Meddwl – Bwriedir ei gynnal ar y 15fed o Chwefror drwy DPJ ond roeddem yn dal i ddisgwyl cadarnhad os oedd yna diwtor Cymraeg ar gael a'i peidio.

Cwis y Sir – penderfynwyd eu adael am y tro a'u drafod yn y cyfarfod nesaf

Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Cadarnhawyd y cystadlaethau a'r beirniaid ar y dyddiau canlynol:
14 oed neu iau – Sadwrn 19eg o Chwefror – Beirniad Nia Medi Jones
28 oed neu iau – Sul 20fed o Chwefror – Beirniad Dai Baker
21 oed neu iau – Nos Fercher 23ain o Chwefror – Beirniad Sara Jenkins
16 oed neu iau – Sadwrn 26ain o Chwefror – Beirniad Archddeacon Eileen Davies

Bydd rhaglen o ddyddiadau cau yn cael eu dosbarthu atoch ar ôl cyfarfod heno ac hefyd mi fyddant ar wefan y Sir.

49 Clwb 200

Penderfynwyd gadael y dynfa tan fis Mawrth.

50 <u>Unrhyw fater arall</u>

Cyfarfod Cyngor Nos Iau 20fed o Ionawr – cadarnhawyd bod Bleddyn Davies; Meirian Morgan a Sioned Davies i gynrychioli'r Sir.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____